# Paratoi a chynnal a chadw offer a deunydd profion diagnostig milfeddygol

## Trosolwg

Mae’r safon hon yn ymwneud â pharatoi a chynnal a chadw offer a deunydd profion diagnostig milfeddygol a ddefnyddir ar gyfer casglu a phrofi samplau gan gleifion milfeddygol. Gall y samplau gynnwys gwaed, troeth, carthion, croen neu flew.

Mae’r safon hon yn addas ar gyfer nyrsys milfeddygol cofrestredig.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cadarnhau hunaniaeth y claf milfeddygol cywir, ei gyflwr a'r prawf diagnostig sy'n ofynnol
2. dewis a gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol (PPE) gofynnol wrth baratoi a chynnal a chadw offer a deunydd profion diagnostig
3. asesu'r risg i'ch iechyd a'ch diogelwch chi a chydweithwyr wrth baratoi offer a deunydd profion diagnostig
4. dewis a rhoi gweithdrefnau rheoli heintiau gofynnol ymarfer milfeddygol ar waith ar gyfer yr ardal o'r filfeddygfa lle'r ydych yn gweithio
5. paratoi offer a deunydd profion diagnostig ar gyfer samplau yn unol â gweithdrefnau'r filfeddygfa a'r cynhyrchydd
6. cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol, rheoliadau, cyfarwyddiadau a chanllawiau'r cynhyrchydd yn ymwneud â defnyddio offer a deunyddiau profion diagnostig
7. cynnal a chadw offer a deunydd profion diagnostig yn unol â chyfarwyddiadau penodol y cynhyrchydd, amserlenni cynnal a chadw'r filfeddygfa a gweithdrefnau'r filfeddygfa
8. chwilio am namau yn yr offer a'r deunydd profion diagnostig a chymryd camau i unioni neu adrodd ynghylch y rhain lle bo angen
9. gwaredu deunydd dros ben a gwastraff yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol ac arferion busnes
10. cydymffurfio â deddfwriaeth a chodau ymarfer perthnasol iechyd a lles anifeiliaid
11. gwneud eich gwaith yn unol â deddfwriaethau amgylcheddol ac iechyd a diogelwch, gofynion asesu risg, codau ymarfer a pholisïau busnes

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i adnabod y claf milfeddygol, ei gyflwr a'r prawf diagnostig sy'n ofynnol
2. pwysigrwydd cael arweiniad gan aelodau'r tîm milfeddygol
3. y mathau o ddillad ac offer amddiffynnol personol (PPE) sy'n ofynnol ar gyfer paratoi a chynnal a chadw offer a deunydd profion diagnostig milfeddygol
4. sut i asesu a lleihau'r risg i chi eich hun neu gydweithwyr wrth baratoi offer profion diagnostig
5. gweithdrefnau rheoli heintiau ymarfer milfeddygol ar gyfer yr ardal o'r filfeddygfa lle'r ydych yn gweithio
6. yr offer a'r deunydd profion diagnostig y dylid eu defnyddio ar gyfer profion diagnostig gwahanol a sut i baratoi'r rhain
7. y ddeddfwriaeth berthnasol, rheoliadau, cyfarwyddiadau a chanllawiau'r cynhyrchydd yn ymwneud â defnyddio offer a deunyddiau profion diagnostig
8. sut i gynnal a chadw offer yn unol â phrotocolau'r filfeddygfa a chanllawiau'r cynhyrchydd
9. y mathau o namau a all effeithio ar offer diagnostig milfeddygol a'r camau i'w cymryd i unioni neu adrodd ynghylch y rhain
10. y mathau o namau a all ddigwydd gyda deunyddiau, yn cynnwys deunyddiau y mae eu dyddiad wedi dod i ben, niwed a halogi a'r camau i'w cymryd i unioni neu hysbysu ynghylch y rhain fel y bo angen
11. sut i waredu'r mathau gwahanol o ddeunydd dros ben neu wastraff yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol ac arferion busnes
12. eich cyfrifoldebau proffesiynol fel nyrs filfeddygol gofrestredig
13. eich cyfrifoldebau ar gyfer iechyd a lles anifeiliaid yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles anifeiliaid
14. eich cyfrifoldeb yn unol â deddfwriaethau amgylcheddol ac iechyd a diogelwch, codau ymarfer a pholisïau busnes perthnasol

LANVRN8

Paratoi a chynnal a chadw offer a deunydd profion diagnostig milfeddygol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 28 Chwef 2019 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 28 Chwef 2024 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANVRN12 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Nyrs milfeddygol |
| **Cyfres/Set** | Nyrsio Milfeddygol a Gwasanaethau Ategol |
| **Geiriau Allweddol** | profi; gofal anifeiliaid; offer |